



## Cyfnod Preswyl i Artistiaid, Robert Owen 250

**Cyfnod preswyl o dri mis ar gyfer artist, Ebrill i Fehefin 2020.**

**Ffi: £3000 (+ £500 am ddeunyddiau)**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 20 Mawrth 2020**

**Cyfweliadau: Yn gynnar ym mis Ebrill**

### Crynodeb Gweithredol

Ganwyd Robert Owen yn y Drenewydd ym 1771, ac roedd yn un o feddylwyr a diwygwyr cymdeithasol mwyaf dylanwadol ei gyfnod. Roedd ei waith ysgrifenedig a'i waith ymgyrchu yn ganolog i ddatblygiadau'r 19eg ganrif ym maes addysg gyffredinol, diwygio ffatrioedd, a datblygu'r mudiad cydweithredol. Mae'r Amgueddfa yng nghanol y Drenewydd, ychydig o droedfeddi o'r fan lle cafodd Owen ei eni, ac mae'n adrodd stori Owen trwy gasgliad o luniau, gwrthrychau a phapurau. Ond mae rhai eitemau chwarae ar gyfer haneswyr iau hefyd, a gall ymwelwyr bori drwy wefan yr Amgueddfa (<http://www.robertowenmuseum.co.uk>) neu wyllo fideos am Owen.

Gadawodd Owen y Drenewydd yn 10 oed i gael ei brentisiaeth fel brethynnwr. Erbyn ei ugeiniau cynnar, ef oedd perchennog y felin gotwm fwyaf yn y byd yn New Lanark yn yr Alban. Er gwaethaf ei lwyddiant masnachol, roedd Owen wedi dod yn bryderus am yr amodau byw a gweithio a welodd yn y trefi cotwm, a daeth yn argyhoeddedig y byddai addysg gyffredinol a gwell amodau byw yn gwella bywydau'n fawr. Adeiladodd ysgolion, tai a siop gydweithredol i'w weithwyr ei hun yn New Lanark, ac ymgyrchodd drwy gydol ei oes 'i hyrwyddo lles a hapusrwydd pob dyn, menyw a phlentyn heb ystyried ... (i) ... enwad, plaid, gwlad a lliw '.

Roedd Robert Owen wrth ei fodd yn y Drenewydd ac mae'n cofnodi dyddiau hapus yn ei hunangofiant, yn chwarae yn y bryniau o gwmpas y dref. Dychwelodd adref ym 1858 ac yn ei oriau olaf, siaradodd am ei freuddwyd "i wneud y Drenewydd yn baradwys a'i holl drigolion yn angylion". Mae wedi cael ei gladdu wrth ochr ei rieni yng ngerddi Eglwys y Santes Fair ar lannau'r Afon Hafren.

Mae Robert Owen, mab y Drenewydd a sylfaenydd y mudiad cydweithredol, yn cael ei ddatlu yn Amgueddfa Robert Owen, sydd wedi'i leoli ar ben stryd lydan yng nghanol y Drenewydd. Mae'r Amgueddfa'n cynnwys paentiadau, darluniau ac arteffactau sy'n esbonio ei syniadau am y berthynas rhwng cyflogwyr a chyflogeion.

<http://www.robertowenmuseum.co.uk>



## 1. Cyflwyniad – archwilio'r potensial am waith celf parhaol, diddorol a llawn gwybodaeth yn y Drenwydd, sy'n coffáu Robert Owen

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas ac Amgueddfa Robert Owen, Cyngor Sir Powys, Cyngor Tref y Drenwydd a Llanllwchaearn ac Oriell Davies, yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ymgysylltu artistiaid arloesol ag etifeddiaeth Robert Owen yn y Drenwydd i ddathlu ei ben-blwydd yn 250. Yr hyn sydd wrth wraidd hyn yw'r awydd i ddefnyddio ymgysylltu democrataidd i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau comisiynu yn cael eu gwneud yn lleol. Nod y prosiect yw agor bywyd Robert Owen a rhai o'r safleoedd, a dehongli rhai o'r straeon a'r gwrthrychau sy'n gysylltiedig ag ef o'r newydd. Rhagwelir y byddai unrhyw Gomisiwn dilynol yn ein helpu i ymgysylltu â lleoedd a'r hanesion a'u ffurfiodd.

Mae nifer o safleoedd o gwmpas y dref sydd eisoes yn coffáu Robert Owen, sy'n cynnwys amgueddfa, placiau, cerfluniau, cerfwedd a bedd.

Gobeithir y bydd y prosiect hwn yn helpu i sefydlu a datblygu ffordd o weithio sy'n fanteisiol i'r holl bartneriaid, sy'n ein galluogi i feithrin perthynas tymor hwy gynhyrchiol.

Bydd y prosiect yn cynnig cyfle i gymunedau perthnasol (gan gynnwys cymunedau Cymraeg eu hiaith), grwpiau, ysgolion, teuluoedd, gweithwyr, staff a gwirfoddolwyr ymchwilio i ffyrdd newydd o edrych ar hanes Robert Owen mewn sgwrs ag artist i gwmpasu'r potensial am gomisiwn artistig a fydd yn dathlu 250 mlynedd ers geni Robert Owen. Mae Oriell Davies wedi bod yn gweithio'n greadigol gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol dros y blynyddoedd diwethaf i edrych ar straeon y Drenwydd, ac mae hi'n credu bod hon yn ffordd bwerus o ymdrin â hanesion lleol a rhyngwladol. Bydd y cyfnod preswyl hwn yn dwysáu'r gwaith hwn, a bydd yn cysylltu Robert Owen â'n cymunedau lleol a hefyd, cymunedau perthnasol ymhellach i ffwrdd. Rydym yn chwilio am geisiadau sy'n atseinio â nod Robert Owen, sef ' hyrwyddo lles a hapusrwydd pob dyn, menyw a phlentyn heb ystyried ... (i) ... enwad, plaid, gwlad a lliw '.

## 2. Trosolwg o'r Prosiect

Yn 2015, bu Oriell Davies yn gweithio gyda'r artist Owen Griffiths ar gomisiwn ar gyfer yr arddangosfa Flora. Ar gyfer ei brosiect Becoming Garden: Dolerw Park, Newtown, bu Owen yn gweithio gyda grŵp o wirfoddolwyr lleol, i drawsnewid rhan o Barc Dolerw yn ofod i annog pobl i ymgynnull, ac fel safle ar gyfer bioamrywiaeth. Aeth Owen a'r gwirfoddolwyr ati i greu gardd o fewn amgylchedd cyhoeddus, gan ryddhau rheolaeth ddinesig drwy ail-ddofi a hadu blodau gwyllt (mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys). Cafodd rhai ardaloedd eu hadu a'u meithrin, tra bod eraill wedi cael eu gadael i fynd yn wyllt. Mae'r ddwy ymagwedd hyn yn darparu enghreifftiau o'n cysylltiad a'n datgysylltiad â thirweddau gwyrdd a rennir o'n hamgylch, ac yn ein gwahodd i ystyried y manau hyn fel ystafelloedd dosbarth, manau cyhoeddus amgen ac i ni, fel bodau rhimatig (lle rydym yn dysgu ac yn archwilio syniadau heb ffiniau).

Cyflwynodd yr ' ardd ' hon y cyfle i gerddwyr a defnyddwyr eraill Parc Dolerw i ymgysylltu â'r fflora mewn ffyrdd newydd. Anogodd Owen ac Oriell Davies bobl i ddefnyddio'r gofodau mewn unrhyw ffordd redden nhw'n dymuno – o gerdded cŵn i fwyta picnic teuluol, o blant yn chwarae i wyllo natur. Ynghyd â'r rhyngweithio bob dydd, trefnodd Owen raglen benodol o drafodaethau, meddwl



radicalaidd a darllen, wedi'i drefnu gan yr artist a'i ysbrydoli gan etifeddiaeth Robert Owen, a'r farddoniaeth ac ysgrifennu am frwydr a'r cwestiwn o waith.

Mae'r cyfnod preswyl hwn yn ceisio gwrando'n effeithiol ar ymatebion a straeon Robert Owen, ac ar ddod o hyd i ffyrdd newydd o rannu'r straeon hynny gydag eraill, fel y gellir gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid comisiynu coffâd newydd mawr ai peidio, a sut y gallai'r comisiwn edrych. Dylai fod yn gyfranogol ac yn ystyrlon i bob cymuned sy'n byw ac yn ymweld â'r Drenwydd, nawr ac yn y dyfodol.

### **Prif nodau'r cyfnod preswyl ydy:**

Dull cyfranogol o archwilio etifeddiaeth a photensial gwaith celf newydd ei gomisiynu i goffâu Robert Owen.

Hoffem i'r artist weithio gyda thair cymuned unigryw -

- Cymunedau lleol sy'n cynnwys cymunedau sy'n siarad Cymraeg
- Ymwelwyr i'r Drenwydd
- Cymunedau o ddiddordeb, fel y gymuned wleidyddol a'r gymuned fusnes (gall hyn ffurfio rhan o'r cynnig)

Er mwyn gweithio gyda'r grwpiau hyn, hoffem i'r artist ddefnyddio dulliau creadigol i ofyn cwestiynau, gwrando a chyflwyno'r ymatebion ar sut y gellid cofio Robert Owen ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gallai cwestiynau allweddol gynnwys:-

- Pa straeon gan Robert Owen sy'n dal eich llygaid chi, a pham?
- Sut y dylem siarad am etifeddiaeth Robert Owen yng Nghymru, y DU a'r byd?
- Sut fedrwn ni gofio Robert Owen?
- Pa ffurf allai'r comisiwn ei gymryd?
- Sut hoffech chi gael eich cynnwys yn y sgysiau?

Meithrin ein perthynas â grwpiau cymunedol nad ydynt, o bosibl, yn ymwybodol o Robert Owen ar hyn o bryd, ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd lleol mewn hanesion gwleidyddol cymdeithasol, a'u cysylltiad lleol.

Cyflwyno lleisiau newydd i ddylanwadu ar y Drenwydd ac ar raglenni'r dyfodol

Cynnwys pobl leol yn y broses o wneud penderfyniadau, gan roi'r profiad iddynt o weithio gydag artistiaid cyfoes mewn cyd-destun etifeddiaeth, i ddatblygu sgiliau a hyder ac i werthfawrogi rôl y celfyddydau wrth adrodd ein hanes.

Creu cyfleoedd i artistiaid archwilio eu hymarfer mewn ymateb i Robert Owen.

Dechrau etifeddiaeth o'r ffordd hon o weithio yn y Drenwydd, ac awgrymu sut y gall y straeon sy'n dod i'r amlwg gael bywyd y tu hwnt i'r cyfnod preswyl hwn.



Creu adroddiad i Lywodraeth Cymru a Phartneriaid i'w ystyried a fydd yn llywio penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â chomisiwn ai peidio.

### 3 Y Cyfnod Preswyl

Rydym yn disgwyl i'r artist weithio 14 diwrnod ar y prosiect hwn, gyda dull awgrymedig o chwe diwrnod gyda chymunedau lleol ac wyth diwrnod gyda chymunedau o ddi-ddordeb.

Patrwm gwaith: Ebrill - Gorffennaf 2020

Mae hon yn fframwaith eang a hyblyg y dylid ei defnyddio i strwythuro gweithgarwch y cyfnod preswyl:

Cyfnod ymchwil: Ebrill - Mai 2020

Cynnal ymchwil yn y Drenwydd a chyda grwpiau lleol gan gynnwys o leiaf un ysgol. Datblygu dealltwriaeth o Robert Owen a'i etifeddiaeth.

Cyfnod yr Ymgysylltu / Cyflwyniad: Mai - Gorffennaf 2020

Datblygu a chyflwyno dull cyfranogol o ymgysylltu gyda'r tri grŵp mewn ymateb i stori Robert Owen.

Cyflwyno'r ymatebion yn greadigol yn Oriell Davies wrth i'r prosiect barhau, er mwyn cynnwys staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr yn y sgwrs.

Diwedd y cyfnod: llunio 'adroddiad' sy'n cynnwys lleisiau cymunedol, yr hyn mae artistiaid wedi'i ddysgu yn ystod y cyfnod preswyl, ac awgrymiadau ar sut i barhau â'r sgysiau hyn yn effeithiol. Dylai'r adroddiad ddangos enghreifftiau o sut y gallai Robert Owen gael ei gofio ac a oes awydd am Gomisiwn graddfa fawr.

Drwy gydol y cyfnod preswyl:

Dogfennu'r broses i'w rhannu (lluniau/testun/sain/fideo)

Dangoswch eich presenoldeb ar-lein i rannu'r arfer a'r broses o weithio, gyda chyfoedion a'r cyhoedd.

### 4 Yr Artist

Gwahoddir cynigion ar gyfer y cyfnod preswyl 3 mis hwn.

Rydym yn croesawu cynigion gan artistiaid sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a thu hwn, sydd â phrofiad o weithio mewn cyd-destun cymdeithasol. Gallant fod yn gweithio trwy unrhyw gyfrwng.

Rydym yn arbennig, yn croesawu artistiaid sydd â phrofiad o ddiwygiadau cymdeithasol, mudiadau cydweithredol, a herio anghydraddoldebau.

Mae profiad o weithio gyda grwpiau a amlinellir yn ddymunol.

Dylai'r artist ddangos agwedd gydweithredol, gyda phrofiad o weithio'n greadigol gydag amrywiaeth o grwpiau a chymunedau.



**Powys**



**Newtown Drenewydd**  
Where the Severn Smiles | Lle Maer  
Hafren Yn Gwenu



Mae'n rhaid i'r artist fod yn hyderus wrth gynhyrchu a chyflwyno gwaith i gynulleidfaedd y tu allan i'r celfyddydau ac aelodau o'r cyhoedd.

Byddem yn croesawu cynigion gan bartneriaeth gydweithredol (er, os gwelwch yn dda, dylech sylwi bod ffi yr artist yn sefydlog).

## 5 Ffioedd a Chymorth i Artistiaid

Codir cyfanswm ffi o £3,000, gyda £500 ar gyfer deunyddiau mewn taliadau fesul cam, gan gynnwys yr holl ffioedd, treuliau a chynhyrchiant (i gynnwys deunyddiau).

Bydd y contract rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru ac artist arweiniol enwebedig.

Mae'n rhaid i deithio a llety gael eu cynnwys yn y ffi.

Yn ogystal â'r ffi, bydd y cyfnod preswyl yn darparu:

Gwybodaeth gefndirol gan Amgueddfa Robert Owen a Chymdeithas Robert Owen

Gwybodaeth am grwpiau cymunedol gan y partneriaid.

Gofod i weithio, yn dibynnu ar union anghenion yr artist creadigol.

Cymorth gydag agwedd ymgysylltu â'r gymuned y comisiwn gan [Oriell Davies](#).

## Oriell Davies

Oriell Davies ydy'r lleoliad mwyaf, a mwyaf arwyddocaol yn y celfyddydau gweledol yn y rhanbarth, ac mae hi'n oriel allweddol yng Nghymru, sy'n dangos celf a chrefft cenedlaethol a rhyngwladol arloesol.

Bydd Steffan Jones-Hughes, Cyfarwyddwr Oriell Davies a Kate Morgan-Clarke, Cynhyrchydd Creadigol yr Oriell, yn darparu cyfleoedd mentora a chymorth i artistiaid yn ystod y cyfnod preswyl hwn.

## 6 Sut i wneud cais

Dylai artistiaid anfon cais drwy e-bost erbyn 9am ar ddydd Gwener, 20 Mawrth i [odgteam@oriell Davies.org](mailto:odgteam@oriell Davies.org)

Hoffem wybod am eich gwaith, ac am yr hyn y byddech yn ei gynnig i'r prosiect drwy'r cyfle hwn.

Y fformat ar gyfer y cynnig hwn yw un PDF, sy'n cynnwys:

1. Datganiad o fwriad (uchafswm o 500 o eiriau) gydag ymateb neu ddatganiad ar sut i ymateb i'r cyfnod preswyl.



**Powys**



**Newtown Drenewydd**  
Where the Severn Smiles | Lle Maer  
Hafren Yn Gwenu

**Cyngor Celfyddydau Cymru**  
Arts Council of Wales



2. CV cryno (uchafswm o 2 tudalen)

3. Hyd at 10 llun o'ch gwaith/cysylltiadau\* i gyfryngau eraill.

\* Dylech ddarparu hyperddolenni i ffeiliau ar-lein neu Dropbox sy'n cynnwys y ffeiliau. Dylid cyfyngu cyfryngau sy'n seiliedig ar amser i hyd at bedwar clip o ddim mwy na 5 munud; ni ddylai delweddau fod yn fwy na 1600 x 1200 picselel.

Ni fydd gwybodaeth a gyflwynir mewn fformatau eraill yn cael ei derbyn.

Bydd yr artist yn cael ei benodi ar ddechrau mis Ebrill.

Am ymholiadau, e-bostiwch: [desk@orioldavies.org](mailto:desk@orioldavies.org)